



**Wales Centre for Public Policy**  
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

# Beth all Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud am dlodi?

Crynodeb o'r gweithdy a phecyn  
adnoddau



# Crynodeb o'r gweithdy

- Datblygwyd y sleidiau hyn yn wreiddiol er mwyn llywio proses cynllun llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac fe'u cyflwynwyd i gynulleidfa o gydlynwyr ac aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn haf 2022.
- Mae'r sleidiau'n cyflwyno tystiolaeth o sawl prosiect ymchwil Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, gan wneud defnydd helaeth o'n hadolygiad diweddar ar dlodi ac allgáu cymdeithasol.
- Mae'r dystiolaeth a gyfosodwyd o'r prosiectau hyn yn ymwneud â pholisi ar lefel Cymru yn bennaf; nod y sleidiau hyn yw cyflwyno'r dystiolaeth gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn cof, gan edrych i weld pa gamau defnyddiol allan nhw eu cymryd i daclo tlodi.

Mae dolenni i fynd at adnoddau a chyfeirnodau drwy'r cyflwyniad.



 @WCfPP

# Cynnwys: Nodau ac amcanion y gweithdy

(Cliciwch ar y dolenni i neidio at yr adran)

**Lleoli Byrddau  
Gwasanaethau  
Cyhoeddus**

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus,  
llesiant, tlodi a chynlluniau**

**Mae strategaeth  
dda yn gwneud  
gwahaniaeth mawr**

**Dod i ddeall pwysigrwydd a dimensiynau  
allweddol dull effeithiol o fynd i'r afael â  
thlodi**

**Mwy na rhestr o  
ymyriadau**

**Ymgyswrtio ag ymyriadau tymor byr a  
chanolig ar sail ardal sy'n mapio ac yn  
cysylltu ar draws blaenoriaethau ar gyfer  
mynd i'r afael â thlodi**

**Llwybrau a  
chfleoedd  
hirdymor**

**Ymgyswrtio â chyfleoedd ar gyfer  
gweithredu economaidd hirdymor sy'n  
bosibl yng nghylch gwaith Byrddau  
Gwasanaethau Cyhoeddus a dylanwad  
lleol**


**Trafodaeth**

**Trosolwg o'r hyn roedd cyfranogwyr y  
gweithdy'n meddwl gallai'r wybodaeth hon  
ei feddwl i Fyrddau Gwasanaethau  
Cyhoeddus**

 @WCfPP

Cyflwyniad

# Lleoli Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus



//


**Gyda thlodi, rydym yn golygu'r cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaeth a mannau agored deniadol) mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn”**

Llywodraeth Cymru  
(2015)

 @WCfPP

# Tlodi a Ilesiant

- Mae tlodi yn gysylltiedig â, ac yn gallu effeithio ar, sawl maes o les.



 @WCfPP

# Beth all Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud?

Beth all Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud i gefnogi'r bobl sy'n byw mewn flodi neu sydd mewn perygl o dlodi, i liniaru effeithiau flodi, yn ogystal ag ymdrechion i atal y rhai sydd mewn perygl o dlodi?

Dwy flaenoriaeth ar gyfer y gweithdy hwn:

- (1) **Tystiolaeth ar ymyriadau ar sail ardal** i gefnogi pobl sydd mewn perygl o dlodi
- (2) **Tystiolaeth ar weithgareddau economaidd hirdymor** i gefnogi ardal a'i phoblogaeth i wella ei rhagolygon economaiddhirdymor.

 @WCfPP

# Beth mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi bod yn ei wneud?

Cynlluniau Ffocws Tlodi 2017	Manylion	WCPP Evidence
<b>Dull gweithredu</b>	Gwybodaeth leol, codi ymwybyddiaeth, cydlynu, sicrhau cyflawniad	<a href="#">Adolygiad rhyngwladol o strategaethau gwrth-dlodi effeithiol</a>
<b>Sgiliau ac adfywio</b>	Anghydraddoldeb a bylchau sgiliau, sgiliau i oedolion sy'n gweithio, adfywio	<a href="#">Dysgu gydol oes Sgiliau ar gyfer pontio cyfiawn</a>
<b>Cyllid a dyled</b>	Sgiliau ariannol, cydlyniant gyda chanolfannau cyngor ar ddyledion	<a href="#">Ddyled aelwydydd</a>
<b>Gofal plant a blynyddoedd cynnar</b>	Cost a chydlyniant rhwng rhaglenni	<a href="#">Addysg a gofal plentyndod cynnar</a>
<b>Cefnogi teithio llesol</b>	Gwella ac integreiddio gwasanaethau trafnidiaeth	<a href="#">Anfantais o ran trafnidiaeth</a>
<b>Digidol</b>	Darparu band eang a seilwaith digidol	<a href="#">Allgáu digidol</a>
<b>Lleihau tlodi tanwydd a bwyd</b>	Gweithio gyda banciau bwyd a darparwyr tai cymdeithasol	<a href="#">Tlodi tanwydd</a> <a href="#">Ansicrwydd bwyd</a>
<b>Trosedd a diogelwch</b>	Trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch y gymuned	<a href="#">Amgylchedd y gymdogaeath</a>




# Beth mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu ei wneud?

Aseidiadau Ffocws Tlodi 2022	Manylion	Ymchwil CPCC
<b>Dull gweithredu</b>	Tlodi dinesig V gwledig Gwaith amlasiantaethol	<a href="#">Adolygiad rhyngwladol o strategaethau gwrth-dlodi effeithiol</a> <a href="#">Gwaith amlasiantaeth a deilliannau i blant sy'n derbyn gofal</a>
<b>Costau byw</b>	Tlodi bwyd a thanwydd, tlodi mewn gwaith a dyledion	<a href="#">Tlodi tanwydd</a> <a href="#">Ansicrwydd bwyd</a> <a href="#">Ddyled aelwydydd</a> <a href="#">Camu ymlaen yn y gwaith</a>
<b>Mynediad at drafnidiaeth</b>	Rhwystr rhag mynediad at waith ac addysg	<a href="#">Anfantais o ran trafnidiaeth</a>
<b>Sgiliau ac ieuencid</b>	Mynediad pobl ifanc at brofiad gwaith / gofalwyr	<a href="#">Addysg bellach a sgiliau</a> <a href="#">Gwasanaethau ieuencid</a>
<b>Tai</b>	Diffyg fforddiadwyedd	<a href="#">Tai fforddiadwy</a>
<b>Plant / gofal plant</b>	Cost a hygyrchedd gofal plant; tlodi plant	<a href="#">Addysg a gofal plant</a> <a href="#">plentyndod cynnar</a>

## Adran 1

# Mae strategaeth dda yn gwneud gwahaniaeth mawr




# Pum ystyriaeth bwysig

## Blaenoriaethu

*"...mae'n rhaid i gamau gweithredu fod yn gysylltiedig ag amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir, ac mae'n rhaid i wahanol amcanion fod â rhywfaint o undod rhyngddynt."*

## Cyfranogiad

Pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw strategaeth yn 'canolbwyntio ar yr unigolyn' a bod y rhai sydd â phrofiad bywyd, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau iddynt, yn cael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon.



## 'Cymysgedd polisi'

*"Mae nifer o ffactorau sy'n sbarduno flodi ac allgáu cymdeithasol, ac felly nid yw un polisi unigol yn ddigon i'w lleihau."*

## Cyfyngau cyflawni

*"Mae ein hadolygiad o strategaethau gwrthdlodi effeithiol yn pwysleisio'r angen am gydlynw gweithredwyr yn effeithiol ar sawl lefel: o Weinidogion hyd at ddarparu gwasanaethau 'rheng flaen'."*

## Monitro

Mae mynd i'r afael â materion fel flodi yn cymryd amser. Mae angen cyfuniad o fesurau allbwn a chanlyniadau i fonitro'r cynnydd.



Adnoddau:

[Beth sy'n creu strategaeth wrthdlodi effeithiol?](#)  
[Trosolwg o'r dystiolaeth ryngwladol](#)

 @WCfPP

# Astudiaeth Achos: Strategaeth Lleihau Tlodi Toronto (2015-2035)

**Cymysgedd polisi wedi'i flaenoriaethu:** sefydlogrwydd tai, mynediad at wasanaethau, cydraddoldeb tramwy (trafnidiaeth gyhoeddus), mynediad at fwyd, swyddi o ansawdd ac incwm y gellir byw arno.

**Cynlluniau gweithredu treigl pedair blynedd o fewn y strategaeth.**

**Taclo gyrwyr strwythurol tlodi** - twf economaidd cynhwysol.

**Ymgysylltu â staff a thrigolion y ddinas** ar ymdrechion lleihau tlodi.

**Canllawiau ar ddeall tlodi a chyfrifoldeb drosto.**

 @WCfPP



Adnoddau: [Beth sy'n creu strategaeth wrthlodi effeithiol?](#)

 Wales Centre for Public Policy  
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cwestiynau perthnasol ar gyfer proses gynllunio'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

1

Beth yw ffocws/blaenoriaeth y cynllun llesiant (ar dlodi)? Sut y bydd yn ychwanegu at ymdrechion tlodi presennol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (ac eraill) ac yn adeiladu arnynt?

2

O ystyried y flaenoriaeth/blaenoriaethau a nodwyd, beth fydd y cyfuniad perthnasol o ymyriadau (neu gymysgedd polisi) yn y cynllun?

3

Pa weithredwyr lleol fydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu cynnull? A oes ganddynt gapasiti? Is delivery aligned with their incentives? Pa adnoddau a chymorth y gallai fod eu hangen arnynt?

4

Sut bydd effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau yn y cynllun yn cael ei bennu? A oes digon o gapasiti ac eglurder o ran cyfrifoldeb?


5

Sut bydd y cynllun yn ymgorffori cyfranogiad parhaus ac ystyrlon y bobl y mae'n ceisio eu cefnogi?

 @WCfPP

Adran 2

# Mwy na rhestr o ymyriadau



# Pedwar maes ffocws...



 @WCfPP



Adnoddau: [Tlodi ac allgáu cymdeithasol: Ffordd ymlaen](#)

 **Wales Centre for Public Policy**  
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# ...myfyrio ar brofiad byw

**“mae'n rhaid i chi ddewis pa un, ydw i'n talu am y nwy a'r trydan? A ddylwn i fynd i ragor o ddyled er mwyn i ni allu bwyta?”**

**"Dydych chi ddim wedi ei wynebu bob dydd, bob blwyddyn, ac yna rydych chi'n cyrraedd eich tridegau a dydych chi ddim yn well eich byd ers pan oeddech chi'n gwyllo eich rhieni'n gwneud yr un peth."**

**“roedd taith a fyddai'n cymryd hanner awr yn y car yn nes at ddwy awr ar y bws, gyda'r opsiwn cynharaf yn cyrraedd y ddinas bron i hanner awr yn hwyrach nag y mae llawer o gyflogwyr yn disgwyl i chi fod yn y gwaith.”**

**“Mae'n gylch dieflig oherwydd byddwch chi bob amser yn poeni am un peth neu'r llall. Mae fy mab yn poeni'n fawr – ‘sut ydw i'n mynd i ymdopi, mam?’”**

 @WCfPP



Adnoddau: [Profiad pobl o dlodi ac allgáu cymdeithasol](#)

 **Wales Centre for Public Policy**  
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



# Cysoni blaenoriaethau a meysydd ffocws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Lleihau costau a chynyddu incwm	'Llwybrau' allan o dlodi	Amgylcheddau sy'n galluogi
<b>Blaenoriaethau cynlluniau 2017</b>		
Cyllid a dyled		
	Sgiliau ac adfywio	
Lleihau tlodi bwyd a thanwydd		
	Digidol	
		Gofal plant a'r blynyddoedd cynnar
		Cefnogi teithio llesol
		Trosedd a diogelwch
<b>Blaenoriaethau asesiadau 2022</b>		
Costau byw		
Tai		
	Sgiliau ac ieuencid	
		Mynediad at drafnidiaeth
Plant a gofal plant		Plant a gofal plant
<b>Iechyd meddwl a llwyth meddwl</b>		

# Lleihau costau a chynyddu incwm



Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod



Tlodi tanwydd



Dyledion aelwydydd



Ansicrwydd bwyd



Tai fforddiadwy

 @WCfPP

# Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
<b>Yng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Dulliau lleol, integredig</b>	Gwerthusiad gwan ar y cyfan	Yn debygol o fod yn effeithiol
<b>Darparu gwybodaeth</b>	Cryf	Cymysg
<b>Cymorth gyda'r broses hawlio</b>	Cryf * noder: gan gynnwys tystiolaeth o ganlyniadau sy'n deillio o <i>ddiffyg</i> cymorth	Effeithiol
<b>Meithrin partneriaethau</b>	Tystiolaeth dda o'u rôl, llai ar ganlyniadau uniongyrchol	Effeithiol
<b>Outside PSB Tu allan i gylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Pasbortio ac awtomeiddio</b>	Cryf	Effeithiol

# Tlodi tanwydd

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
<b>Yng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Ymddygiad</b>	Da	Effeithiol
<b>Gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref</b>	Da	Effeithiol (mae'n bwysig nad ydynt yn arwain at brisiau ynni uwch)
<b>Tu allan i gylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Prisiau ynni</b>	Weak (little international evidence of the effectiveness of different approaches)	Effeithiol (er bod y sylfaen dystiolaeth yn wan, bydd lleihau prisiau ynni ar gyfer aelwydydd incwm isel yn lleihau tlodi tanwydd)
<b>Cymorth ariannol gyda chostau ynni</b>	Gwan	Addawol (mae'n amlwg yn sbardun polisi pwysig ond ychydig o dystiolaeth werthuso sy'n bodoli o'r effaith ar dlodi tanwydd)

 @WCfPP

# Household debt

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
<b>Yng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Llythrennedd ariannol</b>	Cryf	Effeithiol – Llythrennedd ariannol o ran ymddygiadau ariannol Cymysg – Addysg ariannol ar lythrennedd ac ymddygiadau
<b>Tu allan i gylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Polisiâu llesiant sy'n seiliedig ar asedau</b>	Cryf	Cymysg
<b>Gwasanaethau cynghori ar ddyledion</b>	Da	Effeithiol
<b>Gwasanaethau rhyddhau o ddyled</b>	Gwan (Mae gwerthusiadau cadarn yn brin)	Effeithiol
<b>Mynediad at gyfleoedd credyd</b>	Gwerthusiadau gwan o gynhyrchion ariannol amgen	Effeithiolrwydd cyfyngedig (Cyfran ymylol o'r boblogaeth yn unig gall hyn ei chyrraedd)

 @WCtPP

# Food insecurity

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
<b>Yng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Banciau bwyd ac ymyriadau yn y gymuned (e.e. 'cypyrddau cymunedol' a 'phantrïoedd')</b>	Cymysg (prin o ran banciau bwyd, yn fwy cadarn ond yn dal yn gyfyngedig o ran ymyriadau yn y gymuned)	Effeithiolrwydd cyfyngedig
<b>Tu allan i gylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Polisiau sy'n ymwneud ag anialwch bwyd a gormodedd bwyd</b>	Cymysg (cryf o ran yr effaith ar ganlyniadau iechyd, cyfyngedig o ran ansicrwydd bwyd)	Effeithiolrwydd cyfyngedig
<b>Polisiau amddiffyn cymdeithasol (cymorth ariannol, cymorthdaliadau bwyd)</b>	Cryf	Effeithiol
<b>Prydau ysgol am ddim neu am bris gostyngol</b>	Cryf	Effeithiol

# Tai fforddiadwy

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
Tu allan i gylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus		
Polisiau sy'n cefnogi 'model deuolaidd' (e.e. hybu perchentyaeth; cyfyngu ar fynediad at dai cymdeithasol)	Da	Effeithiolrwydd cyfyngedig (yn gysylltiedig â swyddogaeth rhwyd ddiogelwch lai mewn sector cymdeithasol sy'n crebachu)
Polisiau sy'n cefnogi 'model marchnad gymdeithasol' (e.e. rheoleiddio a chymorthdalau'r sector rhentu preifat; ehangu mynediad at dai cymdeithasol)	Da	Effeithiol (ond yn heriol i'w gweithredu mewn cyd-destunau a nodweddir gan lefelau uchel o dlodi ac anghydraddoldeb)

# Gwasanaethau amlasiantaethol 'siop un stop' yn y gymuned...

**'...sy'n darparu cymorth amrywiol, yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â'r amrywiaeth o anghenion a ffactorau risg cydgysylltiedig y gall pobl eu profi. Dengys tystiolaeth fod y rhain ar eu mwyaf effeithiol pan na fyddant yn creu stigma a phan fyddant yn ysgogi cydberthnasau dibynadwy yn y gymuned sy'n helpu i ehangu eu cyrhaeddiad.'**

**(Bucelli a McKnight, 2022a).**



Adnoddau: [Trosolwg o'r dystiolaeth ryngwladol](#)

 @WCfPP



# Amgylcheddau sy'n galluogi



Allgáu digidol



Amgylchedd y gymdogaeth



Gwasanaethau ieuencid



Trafnidiaeth



Tai fforddiadwy

 @WCfPP

# Allgáu digidol

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
Within PSB reYng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus		
<b>Llythrennedd digidol</b>	Da, er bod elfennau gwan. (er enghraifft, nodi beth sy'n gweithio o ran dylunio cyrsiau)	Yn debygol o fod yn effeithiol (yn enwedig pan fydd cyrsiau'n gysylltiedig ag angen penodol)
<b>Mynediad i ddyfeisiau a chysylltedd</b>	Da	Yn debygol o fod yn effeithiol (ceir rhywfaint o dystiolaeth bod cymorthdaliadau band eang yn cynyddu defnydd mewn aelwydydd incwm isel ond mae angen mynd i'r afael â rhwystrau eraill hefyd)

# Amgylchedd y gyndogaeth

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
Yng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus		
Dulliau gweithredu o'r gwaelod i fyny, a arweinir gan y gymuned	Gwerthusiad gwan ar y cyfan	Effeithiol
Tu allan i gylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus		
Dulliau o'r brig i lawr sy'n seiliedig ar le (e.e. cynllunio a gweithredu sy'n gysylltiedig â datblygu tai, cymorth busnes, darparu gwasanaethau cymdeithasol, datblygu'r gweithlu)	Cymysg (ansawdd amrywiol, yn anaml yn canolbwyntio ar effeithiau ar dlodi)	Cymysg (canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas ag amrywiaeth o ddimensiynau ond effeithiau negyddol hefyd)

 @WCfPP

# Gwasanaethau ieuenctid

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
Yng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus		
Cyfranogiad ieuenctid	Cryf (lled-arbrofol)	Effeithiol
Tu allan i gylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus		
Gwasanaethau ieuenctid mynediad agored	<p>Cymysg (adolygiadau o dystiolaeth)</p> <p>Gall canlyniadau asesiadau effaith meintiol amhriodol gael eu camddehongli ac arwain at ddiwygiadau niweidiol.</p>	Effeithiol


 @WCfPP

# Trafnidiaeth

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
<b>Yng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Trafnidiaeth gymunedol</b>	Da	Effeithiol
<b>Trafnidiaeth a rennir</b>	Gwan	Yn debygol o fod yn effeithiol
<b>Tu allan i gylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw</b>	Da	Effeithiol

Adran 3

# Llwybrau a chyfleoedd hirdymor





Tymor hir

**Building community  
capacity and  
knowledge exchange  
networks**

Tymor  
canolig

**Mynd i'r afael â bylchau  
mewn sgiliau  
ac addysg**

Tymor byr

**Mynd i'r afael ag  
effeithiau uniongyrchol yr  
argyfwng costau byw**

 @WCfPP

# Llwybrau allan o dlodi



Addysg bellach a sgiliau



Camu ymlaen yn y gwaith



ECEC



Trafnidiaeth

 @WCfPP



# Addysg bellach a sgiliau

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
<b>Yng nghylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Polisiau sy'n hybu cyfranogiad mewn dysgu oedolion</b>	Da	Cymysg (oherwydd cyfranogiad anghyfartal)
<b>Tu allan i gylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		
<b>Polisiau sy'n ymwneud â chynllunio systemau (e.e. modelau ysgol / seiliedig ar waith; system ddeuol)</b>	Cryf	Effeithiol (mwy cymysg ar gyfer manteision cyflogaeth hirdymor)

 @WCfPP

# Sgiliau ar gyfer Pontio Cyfiawn: gwersi a ddysgwyd

- Dylai ymatebion polisi dargeddu:
  - Datblygu sgiliau
  - Buddsoddi mewn arloesedd
  - Rhoi cefnogaeth i weithwyr a'r gymuned
- Lle mae ymatebion polisi wedi bod yn llwyddiannus, arsylwyd sawl dull cyflawni effeithiol:
  - Cynllunio strategol
  - Localised and individual delivery
  - Cydweithio traws-sector

Ffigur 1: Her sgiliau Cymraeg.



Mae cynhyrchiant cymharol yng Nghymru yn **80-85%** o gymharu â'r DU




gyfan  
Mae **66%** o oedolion yn brin o sgiliau i ryw raddau



Mae **4.4%** o oedolion (19+) yn cymryd rhan mewn addysg bellach neu ddysgu i oedolion yn y gymuned  
Mae **gan 13.6%** o oedolion sgiliau hanfodol gwael



Ffynhonnell: Henley (2021); RCU (2021); Pember et al. (2021).




 @WCfPP



Adnoddau: [Datblygu sgiliau ar gyfer pontio cyfiawn](#)

# Cyfleoedd yng nghyd-destun Cymru



Diwydiant

- Nodi anghenion sgiliau'r dyfodol ac asesu'r sgiliau presennol yn y gweithlu presennol
- Datblygu cyfleoedd hyfforddi/uwchsgilio perthnasol wedi'u targedu
- Arwain ar wella ymchwil ac arloesi i gynyddu'r galw am lafur medrus iawn



Addysg


- Hyrwyddo dysgu gydol oes
- Cynyddu mynediad at / y galw am hyfforddiant sgiliau sy'n bodoli angen y diwydiant a'r gweithlu



Llywodraeth a  
Chyrff  
Rhanbarthol/Lleol


- Defnyddio data i nodi meysydd risg uchel
- Darparu ymyriadau wedi'u targedu i gefnogi gweithwyr ac i gryfhau cymunedau a rhanbarthau y mae'r trawsnewidiadau wedi effeithio arnynt fwyaf

# Sylwadau i gloi a'r Camau Nesaf




# Fframwaith defnyddiol?

- Mae blaenoriaethu a chymysgedd polisi yn llywio meysydd ffocws
- Mae ystyriaethau eraill yn drawsbynciol drwyddi draw



 @WCfPP

# Trafodaeth



# Cwestiynau i'w Trafod

Beth mae'r wybodaeth hon yn ei olygu i

## Gofynnion ni i gyfranogwyr feddwl am y canlynol:

- Beth sy'n ddefnyddiol am yr hyn rydych chi wedi'i glywed am waith cynllunio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar dlodi? Sut gallai fod yn berthnasol i'ch cynllun lleol/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/amcanion a chamau gweithredu posibl?
- Yn eich barn chi, beth allai rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod wrth gydlyn camau gweithredu/ymyriadau o amgylch y maes/meysydd ffocws hyn?
- Pa heriau, bylchau neu anghenion tystiolaeth ychwanegol allwch chi eu nodi?
- Pa syniadau sydd gennych ynghylch cyflawni, monitro neu gymryd rhan mewn perthynas â'r meysydd ffocws hyn/ymyriadau posibl?

 @WCfPP

**Beth sy'n ddefnyddiol am yr hyn rydych chi wedi'i glywed am waith cynllunio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar dlodi? Sut gallai fod yn berthnasol i'ch cynllun lleol/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/amcanion a chamau gweithredu posibl?**

- Defnyddiol sut roedd y gweithdy'n trefnu ac yn grwpio i feysydd ffocws
- Tystiolaeth bod ymagweddau cyfranogol yn werthfawr
- Rhyng-gysylltiadau'n bwysig gan eu bod yn galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gymryd ymagwedd 'siop un stop'
- Ymyriadau ymarferol yn ddefnyddiol
- Barn gymysg wrth nodi beth sydd yng nghylch gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ai peidio
- Yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar hyn o bryd ar swyddi, sgiliau, yr economi leol a buddsoddi, ac yn cysylltu â chynnig Cronfa Rhannu Ffyniant
- Wedi sefydlu partneriaeth rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r brifysgol ar allgymorth cymunedol i gynyddu mynediad at ddysgu a sgiliau

 @WCfPP



## Yn eich barn chi, beth allai rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod wrth gydlynu camau gweithredu/ymyriadau o amgylch y maes/meysydd ffocws hyn?

- Mae angen cwrmpas clir ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i osgoi dyblygu e.e. Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol sy'n berthnasol i'r holl gyrff cyhoeddus,
- “Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddarparu cymorth i bobl allu chwalo rhwystrau a cherdded drwy ddrysau”
- Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fapio, hyrwyddo a chefnogi mynediad at wasanaethau presennol, cefnogi'r gwaith o ledaenu negeseuon allweddol ar dacio tlodi, helpu i ddod â phrofiad byw tlodi i'r amlwg.
- Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynnig capasiti cydlynu, cysylltu â chynlluniau a strategaethau eraill, helpu i integreiddio gweithgareddau, a darparu arweinyddiaeth yn eu hardal leol
- Mwy o ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – barn gymysg

 @WCfPP

## Pa heriau, bylchau neu anghenion tystiolaeth ychwanegol allwch chi eu nodi?

- Astudiaethau achos sy'n uniongyrchol berthnasol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Mwy am fanciau bwyd a'u heffeithiolrwydd
- Tystiolaeth ar dai fforddiadwy ac ymyriadau lefel leol
- Gwybodaeth leol fanwl ar anghydraddoldeb a nodweddion gwarchoddedig
- Gwybodaeth am fynediad at Addysg Bellach ar gyfer y rhai sy'n gofalu am blant
- Rôl aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel caffaelwyr a chyflogwyr a'r effaith bosibl ar dlodi
- Mwy am gydberthynas rhwng pynciau (e.e. tlodi a newid hinsawdd neu fannau gwyrdd) er mwyn cyflawni dull 'stop un siop'

## Pa syniadau sydd gennych ynghylch cyflawni, monitro neu gymryd rhan mewn perthynas â'r meysydd ffocws hyn/ymyriadau posibl?

- Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymgysylltu'n fwy â'r sector preifat ac mae angen ystyried dylanwad/cydbwysedd rhai partneriaid yn erbyn prif aelodau e.e. y Trydydd Sector
- Mwy o amrywiaeth o leisiau o gwmpas y bwrdd / cyfranogiad mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys y rhai y mae tlodi'n effeithio arnynt
- Mae cynyddu cyfranogiad y rhai sydd â phrofiad byw yn bwysig
- Croesawyd canolbwyntio ar gyfranogiad pobl ifanc
- Darparwyd enghraifft o 'oergell gymunedol' lle mae mynd i'r afael â thlodi, gweithredu cymunedol, yr amgylchedd a lleihau gwastraff a manteision iechyd yn uno.

## Gallwch ddysgu mwy am ein gwaith ar ein gwefan:

- [Adolygiad o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru](#)
- [Tlodi ac allgáu cymdeithasol: Ffordd ymlaen](#)
- [Profiad byw o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru](#)
- [Adolygiad rhyngwladol o bolisiau a rhaglenni gwrth-dlodi effeithiol](#)
- [Beth sy'n gwneud strategaeth wrthdlodi yn effeithiol?](#)

## Os hoffech siarad mwy gyda ni, cysylltwch â ni:

[amanda.hill-dixon@wcpp.org.uk](mailto:amanda.hill-dixon@wcpp.org.uk)

 @WCfPP



**Wales Centre  
for Public Policy**  
**Canolfan Polisi  
Cyhoeddus Cymru**

 @WCfPP

---

[www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff, CF24 4HQ  
Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ